ERW
Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working

Cymraeg mewn Addysg yn ERW **15.3.15**

Diben y diweddariad

Darparu trosolwg o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ledled y rhanbarth a disgrifio sut y bydd cymorth i Gymraeg mewn Addysg yn ERW yn gweithredu ac yn gweithio'n effeithiol fel ffrwd waith i gyflenwi blaenoriaethau'r Cynllun Busnes.

Cyflwyniad

1. "Bydd y consortia yn cydlynu ac yn sicrhau ansawdd gweithgarwch i fodloni nodau'r **Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg** drwy sicrhau bod y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r Grant Cymraeg mewn Addysg yn gydnaws â'i gilydd ar draws pob un o'r awdurdodau lleol ac ym mhob un o'r consortia rhanbarthol, fel bod cysondeb o ran datblygu rhagoriaeth mewn addysgeg ac o ran bodloni'r targedau y cytunwyd arnynt, nid yn unig ar draws y sectorau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ond hefyd wrth gyflwyno Cymraeg fel ail iaith.". Y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol 2014.

2. Mae'r awdurdodau lleol yn dal yn gyfrifol am gyflenwi'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, ac felly goruchwylio a chydlynu'r agweddau a nodir uchod yw'r unig ofyniad rhanbarthol o dan y model cenedlaethol.

3. Comisiynodd Bwrdd Gweithredol ERW y Rheolwr Gyfarwyddwr i gynnal adolygiad o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac awgrymu ffyrdd arfaethedig ymlaen.

Adolygiad o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

Ar y cyfan, mae'r cynlluniau'n debyg ac yn cael eu ffurfio ar sail y disgwyliadau a osodir gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg i gyd yn wahanol iawn yn y cyfnod gweithredu am fod amrywiaeth o flaenoriaethau ac anghenion pob ALl yn wahanol iawn. Ar lefel strategol, mae'n debyg bod y flaenoriaeth a roir yn amrywio'n sylweddol.

Mae'n debygol na fydd gan y rhan fwyaf o ALlau ddigon o allu i gyflenwi'r nodau a'r camau gweithredu a nodir yn y cynlluniau. Mae'r adborth gan Lywodraeth Cymru i'r ALlau yn

gadarnhaol gan mwyaf, ond mae'r disgwyliad yn amrywio'n sylweddol o'r naill awdurdod i'r llall.

Mae'r cynlluniau gorau:

- yn glir, yn bendant ac yn gryno;
- yn cynnwys mesurau gwella clir yn seiliedig ar ganlyniadau neu'r nifer sy'n defnyddio;
- yn cael eu monitro a'u hadnoddu i sicrhau gwell gallu ar gyfer Cymraeg mewn Addysg.

Yn y cynlluniau y mae gofyn eu datblygu:

- nid ydynt yn cyfeirio digon at ddatblygu addysgeg a chodi safonau mewn addysg Cyfrwng Cymraeg;
- nid ydynt yn cael eu cysylltu â blaenoriaethau strategol a chynlluniau sengl eraill ar lefel ALl
- nid ydynt yn nodi sut bydd ysgolion yn cael eu cefnogi i wella eu gallu i sicrhau gwelliannau fel cyfrwng neu fel pwnc.

Yn gyffredinol, nid yw'n glir a ydy'r targedau a osodir yn cael eu herio neu eu holrhain ai peidio ar lefel ysgol unigol, fel bod cyfraniadau tuag at welliannau yn cael eu monitro'n ofalus.

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal adolygiadau o'r holl Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac yn ei hadborth mae'n awgrymu y dylem gryfhau'r gwaith ar

- gefnogi Cymraeg fel pwnc, ac yn benodol fel ail iaith; a
- chefnogi ysgolion dwy ffrwd i gynyddu'r nifer sy'n dewis y Gymraeg.

Casgliad

Mae gan ERW felly bedair prif thema i'r gwaith wrth inni fwrw ymlaen â blaenoriaethau'r Cynllun Busnes ar gyfer 2015-18.

1. Galluogi'r grŵp o **chwe swyddog o bob ALl i gyfarfod fel rhwydwaith bob tymor** i rannu arfer a chynnydd mewn perthynas â blaenoriaethau'r Cynllun Busnes yn

arolygiaeth y grŵp. Dylai'r grŵp nodi meysydd allweddol o waith gweithredol lle gallant gydweithio i ddatblygu prosiect ar y cyd.

- Cydgyfrannu a datblygu adnoddau 2015
- Siarter iaith 2016

Mae'n bwysig bod yr unigolion cywir yn cynrychioli Cyfarwyddwyr yn y grŵp hwn, a gaiff ei gadeirio gan Catrin Griffiths o Sir Gaerfyrddin.

2. Datblygu **set ddata benodol i ysgolion cyfrwng Cymraeg** a'r rheini lle addysgir Cymraeg Iaith 1af i lefel TGAU. Bydd y dadansoddiad data hwn yn ychwanegu at yr her a'r drafodaeth ddata yn ystod Ymweliad Craidd yr Hydref. Bydd hyn yn galluogi gwell cysondeb wrth osod targedau ar lefel Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac wrth gefnogi gwelliant o ran y nifer sy'n astudio yn Gymraeg a'r canlyniadau.

3. **Gweithio gyda Llywodraeth Cymru** i ddatblygu a chryfhau'r polisi ynghylch Cymraeg mewn addysg yn rhan o'r newidiadau cwricwlaidd.

4. Datblygu **adran gyflwyniadol gyffredin i bob Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg** gan gynnwys sut mae 6 ALl ERW yn cydweithio ar dasgau a ffrydiau gwaith allweddol. Bydd hyn yn amlygu unrhyw feysydd gweithredu cyffredin.

5. O dan y gofyniad ar gyfer y Grant Gwella Addysg, bod pob ALl yn cyflwyno ei gynllun yn gydnaws â chynllun yr awdurdod lleol. Lle bo'n benodol, caiff tasgau rhanbarthol eu gweithredu gyda'i gilydd, a dylai'r grŵp Cymraeg mewn Addysg gostio hyn a'i ychwanegu at ddyraniad canolog.

6. Datblygu'r gallu i gefnogi Cymraeg 2^{il} Iaith. Ystyried sut gellir cyflenwi hyn i fodloni'r angen.

Argymhelliad: canolbwyntio gwaith y grŵp Cymraeg mewn Addysg yn unol â'r tasgau a nodwyd uchod.